Dadansoddi ar gyfer Polisi
YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH
GSR
GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH
Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:
38/2019
DYDDIAD CYHOEDDI:
05/09/2019

# Gwerthusiad o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 (Cymru)

# Adroddiad Fframwaith ar gyfer Newid

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-83933-089-6

# Gwerthusiad o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 (Cymru): Adroddiad Fframwaith ar gyfer Newid

Awdur(on): Fiona Verity, Nick Andrews, Heulwen Blackmore, Gideon Calder, Jonathan Richards a Mark Llewellyn

Pippa Anderson, Catrin Awoyemi, Noreen Blanluet, Megan Elliott, Tony Garthwaite, Jen Lyttleton-Smith, Alison Orrell, Ceri Phillips, Malcolm Prowle, Roiyah Saltus, Sion Tetlow, Carolyn Wallace

Sefydliad Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru · Prifysgol De Cymru
Ysgol Ymchwil Gofal Cymdeithasol  Cymru
Prifysgol Abertawe
Prifysgol Bangor
Prifysgol Caerdydd

Adroddiad Ymchwil Llawn: Verity, F., Andrews, N., Blackmore, H., Calder, G., Richards, J., Llewellyn, M. (2019). *Gwerthusiad o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 (Cymru) Adroddiad Fframwaith ar gyfer Newid*.
Caerdydd:
Rhif Adroddiad GSR Llywodraeth Cymru, 38/2019
Ar gael ar: https://llyw.cymru/gwerthusiad-o-ddeddf-gwasanaethau-cymdeithasol-llesiant-cymru-2014

Barn yr ymchwilydd a geir yn yr adroddiad hwn ac nid o angenrheidrwydd barn Llywodraeth Cymru

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:
Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: ymchwil.iechydagwasanaethaucymdeithasol@llyw.cymru

# Cynnwys

1. Cyflwyniad ..... 2
2. Trosolwg o Ffactorau Cyd-destunol ..... 5
3. Disgrifiad o'r Fframwaith ar gyfer Newid ..... 11
4. Casgliad ..... 24

# Ffigyrau

Ffigwr 1: Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 Fframwaith ar gyfer Newid ..... 12
Ffigwr 2: Canllawiau Cyfeirio ..... 16
Ffigwr 3: Egwyddorion y Ddeddf ..... 17
Ffigwr 4: Canlyniadau: Byr dymor a thymor Canolig ..... 22
Ffigwr 5: Canlyniadau: Hirdymor ..... 23

# 1. Cyflwyniad

*Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014* (a elwir ‘y Ddeddf’ ar ôl hyn) yn sefydlu fframwaith cyfreithiol ar gyfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol a byrddau iechyd yng Nghymru. Daeth i rym ym mis Ebrill 2016. Sefydlwyd y Ddeddf fel fframwaith systemig uchelgeisiol i alluogi newid polisi trawsffurfio, newid lefel cyfundrefnol y system a newid yn y modd mae gofal a chymorth yn cael eu cynnig. Disgwylir i’r newidiadau hyn yn eu tro gael eu hadlewyrchu ym mhrofiadau unigolion, teuluoedd gofalwyr a chymunedau o ofal a chymorth, a thros amser yng nghyflawniad canlyniadau llesiant a gwasanaethau cymdeithasol cynaliadwy.

Mae’r Ddeddf yn gofyn i’r rhai sy’n gyfrifol am ei gweinyddu lynu at egwyddorion allweddol ac o wneud hynny i addasu i gyd-destunau amrywiol ac ymateb i’r ‘hyn sy’n bwysig’ i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau, gofalwyr a chymunedau. Mae’r Ddeddf yn nodi dyletswyddau cyfreithiol penodol. Ceir hefyd ofynion i weithredu rhaglenni a gellir gwneud hynny o bosibl mewn nifer o ffyrdd, mewn cyd-destunau gwahanol yn ôl yr egwyddorion a’r gofynion ynddi.

Yn y ddogfen hon byddwn yn rhoi braslun o Fframwaith ar gyfer Newid, neu hanes am y modd y mae’r dyletswyddau, yr egwyddorion a’r delfrydau, y mecanweithiau a’r arferion a nodir yn y Ddeddf yn ganllawiau i ganlyniadau arbennig, a’r mwyaf hynod ydy cyflawni llesiant ar gyfer pobl yng Nghymru a chynaliadwyedd gwasanaethau. Mae’r naratif hwn yn deillio o ddogfennau cefndirol megis y Papur Gwyn *Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy - Fframwaith ar gyfer Gweithredu* (2011) a ddatblygwyd i fod yn sail i gyflwyno’r Ddeddf i Gynulliad Cymru, ynghyd â’r Rheoliadau a’r Codau Ymarfer perthnasol a chrynodeb o’r canllawiau a baratowyd wrth i’r Ddeddf gael ei chyflwyno yng Nghymru. Rydyn ni wedi adolygu polisi Llywodraeth Cymru ar ofal cymdeithasol a iechyd ynghyd â dogfennaeth strategaeth er 2005 ac wedi profi’r Fframwaith gydag arweinwyr a rhanddeiliaid sy’n aelodau o Grŵp Cyfeirio Arbenigol yr Astudiaeth.

Mae ein dull o fynd ati i werthuso’r Ddeddf wedi ffocysu ar Egwyddorion Gwerthuso (P-FE).[1] Mae’r dull hwn o fynd ati yn arbennig o ddefnyddiol i werthuso ymyriadau sy’n gymhleth gyda nifer o gydrannau, ac a ddehonglir yn wahanol gan wahanol bobl ac a weithredir mewn gwahanol amgylcheddau a sefyllfaoedd. Ar ben hynny fel y mae Moore et al., yn nodi (2015, p.2)[2], gallai gweithredu ymyriad mewn cyd-destun ysgogi newid yn y cyfryw gyd-

---

[1] Patton, M. (2018) *Principles-Focused Evaluation*, The Guilford Press, London/Llundain

[2] Moore G., Audrey, S., Barker, M., Bond, L., Bonell, C., Hardeman, W., et al. (2015) ‘Process evaluation of complex interventions: Medical Research Council guidance’ *BMJ,*;350 :h1258

destun. Nodwedd P-FE ydy sensitifrwydd i'r amgylcheddau deinamig lle mae'r ymyriad yn digwydd.

Mae'r Ddeddf yn welliant sylweddol i'r polisi a ddisodlodd nifer fawr o ddeddfwriaethau. Yn ôl rhestr mewn nodyn yng Nghanllawiau Gofal Cymdeithasol Cymru (Dogfen B: Adran 10)[3,4] mae hyn yn cynnwys diddymu'r canlynol neu eu bod bellach ddim yn berthnasol:

- Rhannau 3 a 4 o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948
- Adran 3 o Ddeddf Personau Anabl (Cyflogaeth) 1958
- Adran 45 o Ddeddf Gwasanaethau Iechyd a Iechyd y Cyhoedd 1968
- Adran 1, 2 a 28A o Ddeddf Cleifion Cronig a Phersonau Anabl 1970
- Adran 17 o Ddeddf Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Dyfarniadau Nawdd Cymdeithasol 1983
- Adran 3, 4 ac 8 o Ddeddf Personau Anabl (Gwasanaethau, Ymgynghoriad a Chynrychiolaeth) 1986
- Adran 46 o Ddeddf Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol a Deddf Gofal Cymunedol 1990
- Gofalwyr (Cydnabyddiaeth a Gwasanaethau) 1995
- Deddf Gofalwyr a Phlant Anabl 2000
- Adran 49, 50, 54, 55. 56 a 57 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2001
- Adran 16 o Ddeddf Gofal Cymunedol (Rhyddhau Gohiriedig ayb.) 2003[5]
- Deddf Gofalwyr (Cyfleoedd Cyfartal) 2004
- Adran 192 o a Deddf Siediwl 15 Deddf Gwasanaethau Iechyd Cenedlaethol (Cymru) 2006
- Deddf Gofal Personol Gartref 2010
- Mesur Codi Ffioedd ar gyfer Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2010
- Mesur Strategaethau ar gyfer Gofalwyr (Cymru) 2010.

[3] *Nodyn Canllaw: diddymiadau a thrawsnewid o ran Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014*, 10.

[4] Nghanllawiau Gofal Cymdeithasol Cymru

## Adrannau

Rhennir y ddogfen hon sef Fframwaith ar gyfer Newid yn dair adran:

i. Trosolwg o rai o’r ffactorau cyd-destunol a allai effeithio ar weithredu’r Ddeddf yng Nghymru (h.y. ffactorau polisi cyhoeddus, ffactorau economaidd-gymdeithasol, llwybr ddibyniaeth ayb.) sydd â goblygiadau i werthuso gweithredu’r Ddeddf.

ii. Trosolwg o'r Ddeddf

iii. Darlun o’r canllawiau cyfeirio, egwyddorion ac amcanion y Ddeddf, yr 11 cyfadran a’r gweithgareddau a’r allbynnau a’r canlyniadau arfaethedig. Yr enw rydyn ni wedi’i roi ar y disgrifiad hwn ydy ‘Fframwaith ar gyfer Newid’.

## 2. Trosolwg o Ffactorau Cyd-destunol

Mae'r Ddeddf yn ymyriad cymhleth, sef mae'n bolisi cyhoeddus sy'n amlinellu'r dyletswyddau cyfreithiol, 14 o brosesau i gyflenwi gofynion gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru. Mae'r Cyngor Ymchwil Meddygol (2019, tud.6-7)[6] yn diffinio ymyriad cymhleth fel un sydd â 'nifer o gydrannau rhyngweithiol' ac, os ceir sawl parti, ystod o ganlyniadau a 'rywfaint o hyblygrwydd neu deilwra o ran yr ymyriad a ganiateir'.

Er bod y ffocws ar ganlyniadau gwasanaethau cymdeithasol a llesiant, ni ellir ystyried gwerthuso'r Ddeddf heb ystyried cyd-destunau lleol deinamig penodol a fydd yn pennu anghenion ac ymatebion i ateb anghenion, y gorffennol a fydd yn dylanwadu ar yr hyn sy'n digwydd nawr ac yn y dyfodol, a'r ffactorau cyd-destunol hynny a fydd yn dylanwadu ar anghenion gofal cymdeithasol pobl a'r amodau lle gellir diwallu'r rhain orau. Rhaid hefyd ystyried ffactorau rhanbarthol a chenedlaethol. Mae rhai ffactorau eisoes yn hysbys ond mae llawer yn anhysbys ac yn anrhagweladwy. Yn ôl Davey et al. (2017, tud.14) 'mae'n gyd-destun anodd deall a nodi popeth am y system: dydyn ni ddim yn gallu mapio'r system gyfan'.'[7]

### Cyd-destunau deinamig

Mae nifer o ffactorau yn dylanwadu ar y sefyllfa economaidd a chymdeithasol y gweithredir y Ddeddf ynddi yng Nghymru. Mae cyni wedi bod yn elfen gyson yn y DU ers argyfwng ariannol 2008, yn llesteirio'r modd y mae Llywodraeth Cymru wedi gweithredu hyd yn oed er bod penderfyniadau ar sut i drin a thrafod amgylchiadau argyfyngus wedi bod yn wahanol yng Nghymru ar lawer cyfri pwysig. Yn 2014, nododd Swyddfa Archwilydd Cyffredinol Cymru y pwysau ariannol a gwytnwch sydd '…o dan bwysau ariannol sylweddol ac wedi bod yn weithredol wrth fynd i'r afael â'r sialens.'[8] Ac eto, hyd yn oed o ystyried bod cynnydd mewn refeniw drwy Dreth y Cyngor, mae gostyngiadau yng ngrantiau Llywodraeth Cymru i gynghorau wedi golygu bod gan awdurdodau lleol £577.1m llai i'w wario yn 2017-18 nag oedd ganddyn nhw yn 2009-10 (Ifan a Sion, 2019).[9]

---

[6] Medical Research Council (2019) [Developing and evaluating complex interventions: new guidance]

[7] Davey, C., Hassan, S., Bonell, C., Cartwright, N., Humphreys, M., Prost, A., Hargreaves, J., (2017) *Gaps in Evaluation: Methods for Addressing Challenging Contexts in Development*. CEDIL Pre-Inception Paper: London.

[8] Archwilydd Cyffredinol Cymru, (2015) *The Financial Resilience of Councils in Wales.* Wales Audit Office: tud.4

[9] Ifan, G. and Sion, C. (2019) *Cut to the bone? Dadansoddiad o gyllid Llywodraeth Leol yng Nghymru 2009-10 i 2017-18 a'r rhagolwg ar gyfer 2023-24*. Caerdydd: Canolfan Llywodraethiant Cymru.

Daw hyn yn rhan o sefyllfa ehangach lle:

- mae cyfraddau tlodi yng Nghymru yn gyson uwch na'r DU (JRF, 2018);[10]
- mae dyled teulu wedi codi i lefelau digynsail (TUC, 2019[11]) a chyfartaledd cyflogau gwir yn parhau'n is nag yn 2008, cyn yr argyfwng ariannol; ac
- mae cyflogau ar gyfartaledd yng Nghymru yn gymharol isel ac yn codi'n sylweddol arafach nag yn rhannau eraill o'r DU (ONS, 2018).[12]

Er i wariant ar addysg a gwasanaethau cymdeithasol gael ei ddiogelu (Ogle, Luchinskaya a Trickey, 2017)[13], mae'r toriadau yng nghyllid llywodraeth leol ac effeithiau cyni ehangach yn arwyddocaol wrth lunio'r cyd-destun y gweithredir y Ddeddf ynddo.

Mae gan yr uchod oblygiadau o ran cyflawni llesiant unigolion a llesiant ar y cyd, egwyddor greiddiol a chanlyniad arfaethedig y Ddeddf. Lluniwyd y Ddeddf, ei datblygu a'i gweithredu dros gyfnod o wariant ariannol cyfyngedig y llywodraeth a rhagwelir y bydd y duedd hon yn parhau ac o'i gosod yn erbyn y galw, bydd yn cyllido'r bylchau ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus allweddol yng Nghymru (Roberts a Charlesworth, 2014)[14]. Rhagwelwyd na fydd gwariant ar wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn dychwelyd i lefelau cyn y cyfnod o gyni tan 2023 (Ifan a Sion, 2019). Adlewyrchwyd y cyfyngiadau hyn mewn teuluoedd lle byddai'r rhai sy'n derbyn gofal a gofalwyr aelod o'u teulu wedi cael eu heffeithio'n uniongyrchol gan gyfnod cyson o bwysau ar safonau byw. Er enghraifft, mae patrymau clir o anghyfartaledd iechyd, gyda'r tebygrwydd o oedolion yn nodi bod eu hiechyd yn 'dda' neu'n 'dda iawn' a hynny'n gostwng yn sylweddol ymhlith pobl y dosbarth galwedigaethol ac mewn ardaloedd difreintiedig – gyda 62.4% o oedolion yn nodi bod eu hiechyd yn 'dda' neu'n 'dda iawn' yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig, o'i gymharu ag 80.1% yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig (EHRC, 2018).[15]

Hefyd, mae'r Ddeddf yn delio ag ystod eang o ddyletswyddau ym maes gwasanaethau cymdeithasol. Bydd gan y sefydliadau yr ymddiriedir y dasg o gyflenwi gwahanol rannau o'r Ddeddf iddyn nhw hanes, diwylliannau ac arferion arbennig, yn cynnwys cynllunio strategol a gweithredol, galluoedd staff a chysylltiadau ffurfiol ac anffurfiol â sefydliadau eraill yn yr

[10] JRF (2018) Poverty in Wales 2018

[11]TUC (2019) 'Unsecured debt hits new peak of £15,400 per household – new TUC analysis'.

[12] ONS (2018) Earnings and Hours Worked in the UK, 2018.

[13] Ogle, J., Luchinskaya, D. and Trickey, M. (2017) *Austerity and local government in Wales: an analysis of income and spending priorities, 2009-10 to 2016-17.* Wales Public Services 2025, Cardiff/Caerdydd.

[14] Roberts, A.,and Charlesworth, A. (2014) A decade of austerity in Wales? The funding pressures facing the NHS in Wales to 2025/26. Research report. Nuffield Trust.

[15] EHRC (2018) Is Wales Fairer? The State of Equality and Human Rights, 2018.

ardal leol/a systemau. Mewn geiriau eraill, roedd 'sut roedd pethau arni' adeg gweithredu'r Ddeddf yn amrywio. Er enghraifft, ar adeg deddfu'r ddeddfwriaeth, roedd y 22 awdurdod lleol yng Nghymru yn wahanol o ran eu maint daearyddol, eu lleoliad, tirwedd, maint eu poblogaeth a'u cyfansoddiad, hinsawdd cyfundrefnol eu cynghorau lleol, eu hanes a'u harferion, eu sefyllfaoedd ariannol a natur wleidyddol y llywodraeth leol etholedig. Fel taleithiau democrataidd lleol, maen nhw'n annibynnol tra'n gweithio o fewn fframweithiau deddfwriaethol y DU a chenedlaethol ehangach ac yn cyflenwi yr hyn sydd yn ofynnol.[16]

Ar ben hynny, mae hanes datblygiad cymunedol a gwaith ataliol pob un yn unigryw pob un yn unigryw ac mae darpariaeth gwasanaethau cymdeithasol ac ymglymiad gyda'r sector gwirfoddol, y trydydd sector a'r sector preifat, y GIG a gwasanaethau cyhoeddus eraill yn unigryw. Mae i gymdeithas sifil o fewn ardaloedd yr awdurdodau lleol hyn ei nodweddion a'i rythmau ei hun. Mae'r gwahaniaethau hyn yn amlwg iawn wrth gymharu gwahanol awdurdodau lleol. Er enghraifft, yng Nghymru, ceir awdurdodau megis Powys a Cheredigion sydd, gan fwyaf, yn rhai gwledig a rhai fel Caerdydd, Casnewydd ac Abertawe sydd yn fwy dinesig ac ar y llaw arall awdurdodau'r cymoedd megis Rhondda Cynon Taf a Chaerffili sy'n gymysgedd cymhleth o'r trefol a'r gwledig, ac mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn isadeiledd y gwasanaethau.[17]

Cyflwynwyd newidiadau i bolisi cyhoeddus a rheoliadol yng Nghymru yn ystod cyfnod tebyg sy'n dueddol o symud i gyfeiriad tebyg i'r rhai hynny a nodir yn y Ddeddf. Maen nhw hefyd yn berthnasol i ba newidiadau y gellir eu priodoli i weithrediad y Ddeddf. Rhaid nodi hefyd effeithiau yr hyn a elwir yn llwybr ddibyniaeth. Yn gyffredinol, mae ystyried gweithredu polisi diwygiedig yn golygu ystyried sut i oresgyn y rhwystrau sefydliadol a diwylliannol sy'n gweithio i gadw pethau fel ag yr oedden nhw neu oedd ar yr un llwybr hanesyddol. Mae Cerna yn datgan yn yr Adolygiad ar gyfer y Sefydliad ar gyfer Gweithrediad a Datblygiad economaidd (OECD) bod damcaniaethau am lwybrau dibyniaeth yn tybio '…ei bod, yn gyffredinol yn anodd newid polisïau oherwydd bod sefydliadau yn anhyblyg, ac mae ffactorau'n amddiffyn y model sydd eisoes yn bodoli' (Cerna, 2013; tud.4).[18] Mewn geiriau eraill, ar draws Cymru ceir amodau a deinameg gwahanol. Yn ei drafodaeth ar weithredu gwelliant mewn polisi,[19] mae Weaver (2010) yn awgrymu bod angen, mewn unrhyw

---

[16] Auditor General for Wales (2014) The Financial Resilience of Councils in Wales, Wales Audit Office.

[17] Bowyer, O. (2018) Public service reform in post-devolution Wales: a timeline of local government developments, National Assembly for Wales, Senedd Research.

[18] Cerna, L. (2013) The Nature of Policy Change and Implementation: A Review of Different Theoretical Approaches. OECD.

[19] Weaver, K. (2010) But Will It Work?: Implementation Analysis to Improve Government Performance.

ddadansoddiad o weithredu deddfwriaeth, ystyried yr 'anhysbys anhysbys' ('unknown unknowns').

## Saernïaeth Polisi Cyhoeddus

Daeth y Ddeddf i rym 6 Ebrill 2016 ynghyd â darnau eraill o ddeddfwriaeth genedlaethol a pholisi sydd, gyda'i gilydd yn newid y polisi cyhoeddus a'r sefyllfa reoleiddio yng Nghymru. Disgrifir rhai o'r datblygiadau allweddol sy'n rhoi syniad i ni o'r polisi ehangach a'r modd y gweithredir y Ddeddf wrth gyflenwi gwasanaethau Ddeddf. Mae themâu cynorthwyo llesiant, ataliad, gwasanaethau cynaliadwy, gweithio amlasiantaethol, cydraddoldeb a chyd-gynhyrchu yn ganolog ar draws y mentrau hyn.

- Ategodd **Gofal Iechyd Darbodus** [20] a lansiwyd yn 2014. gyfeiriad y Ddeddf drwy ail-ganolbwyntio ar ddarpariaeth iechyd yn y gymuned, gweithio gyda phobl mewn modd cyd-gynhyrchiol, 'defnyddio pob sgil ac adnodd yn y modd mwyaf effeithiol' ac ymyrryd yn briodol a 'gwneud yr hyn sydd ei angen, dim mwy a dim llai a pheidio â gwneud unrhyw niwed' ac osgoi gofal gwastraffus. Un o'r camau gweithredu â blaenoriaeth ydy sicrhau bod gwasanaethau cymdeithasol yn cydweithio[21]'.
- Mae **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**[22] yn gofyn i gyrff cyhoeddus – h.y. awdurdodau cyhoeddus a byrddau iechyd – i ystyried cynaliadwyedd hirdymor yn flaenoriaeth, gan gydweithio a gweithio gyda sefydliadau perthnasol eraill (megis grwpiau'r trydydd sector) a'r cyhoedd i atal a mynd i'r afael â phroblemau. Mae hyn yn cysylltu'n agos gyda'r Ddeddf. Mae'r ffocws ar ganlyniadau llesiant (mae saith o dargedau llesiant integredig) a dull cydweithredol o fynd ati.

  Rhan annatod o *Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol* ydy egwyddor cynaliadwyedd y mae gofyn i bob corff cyhoeddus lynu ati. Creodd y Ddeddf hon Fyrddau Gwasanaeth Cyhoeddus (BGC) yn cynnwys yr awdurdod lleol, y GIG, yr Awdurdod Tân ac Achub ac Adnoddau Naturiol Cymru a chyfranogwyr eraill.[23]

  Mae'r gofyn i'r BGCau wella llesiant a rhaid iddyn nhw lunio datganiad llesiant a chynllunio ar ei gyfer, datganiad a ddisgrifir yn y dyfyniad canlynol o Ddeddf Canllawiau ar gyfer Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015':

[20]Gofal iechyd darbodus, p.5.
[21] Gofal iechyd darbodus, p.4.
[22] Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
[23]Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

*Rhaid i gyrff cyhoeddus gyhoeddi datganiad am eu hamcanion llesiant gan egluro'r rheswm pam maen nhw'n teimlo y bydd yr amcan yn eu helpu i gyflawni'r targedau a sut mae'n berthnasol i egwyddor datblygiad cynaliadwy. Rhaid iddyn nhw hefyd sicrhau eu bod yn cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r targedau a bod y cyfryw bobl yn adlewyrchu'r amrywiaeth yn eu hardal.*[24]

- Cyhoeddodd yr **Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol**[25] ei adroddiad terfynol ym mis Ionawr 2018. Roedd yr adroddiad hwn yn cydnabod cyd-destun y polisi a'r cefnir deddfwriaethol er mwyn sicrhau system ddi-dor yn seiliedig ar gyflenwi llesiant yr unigolyn. Casglwyd swmp sylweddol o dystiolaeth a data fel rhan o'r gwaith hwn a fu'n sail i argymhellion ac y bydd yn sail i gynnwys y polisi yn y dyfodol.

- **Deddf Tai (Cymru) 2014, a weithredwyd yn 2015**, ydy deddfwriaeth gyntaf Cymru ar dai. Mae'r Ddeddf yn nodi mentrau i fynd i'r afael â digartrefedd, cefnogi tai cydweithredol ac yn gosod dyletswydd ar bob awdurdod lleol yng Nghymru i asesu a darparu safleoedd i ddiwallu Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr. Yr olaf ydy Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr (GTAA).

  Yn union fel gyda'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, mae gofynion ar awdurdodau lleol i newid arferion a hinsawdd a chynorthwyo ymglymiad a chyfranogiad gweithredol y gymuned. Bu gweithredu'r Ddeddf Tai yn destun gwerthusiad gan Brifysgol Salford sydd wedi cyhoeddi adroddiad. [26]

- Mae **Cymru Iachach**[27] a gyhoeddwyd mewn ymateb i Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn nodi gweledigaeth hirdymor o 'ddull system gyfan o fynd ati i ddelio â iechyd a gofal cymdeithasol', oedd yn ffocysu ar iechyd a llesiant ac ar atal salwch. Yn *Cymru Iachach* ceir nod pedwarplyg sy'n mapio sut mae ein system iechyd a gofal cymdeithasol yn cyfrannu ar gyflawni'r targedau a geir yn *Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.* Pedair thema'r Nod Pedwarplyg yng nghyd-destun Cymru ydy:
  - Gwell iechyd a llesiant y boblogaeth;

[24] Guide to the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015)

[25] The Parliamentary Review of Health and Social Care in Wales (2018) ()

[26] Full Research Report: A. Ahmed, M. Wilding, A. Gibbons, K. Jones, M. Rogers, I. Madoc-Jones (2018). Cardiff: Welsh Government, GSR report number 46/2018.

[27] Cymru Iachach: Ein Cynllun Iechyd a Gofal Cymdeithasol

- Gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol mwy hygyrch a gwell eu hansawdd;
- Iechyd a gofal cymdeithasol uwch eu gwerth; a
- Gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol brwdfrydig a chynaliadwy.

– Sefydlodd **Deddf Rheoleiddio ac Arolwg Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016**[28] gyfundrefn reoleiddio sy'n cynorthwyo'r Ddeddf ac yn diwygio arolwg o swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol awdurdod lleol. Hefyd, sefydlodd Gofal Cymdeithasol Cymru, sefydliad sy'n gyrru gwelliant ac yn rheoli'r sector. Mae'r system arolygu a rheoli newydd yn seiliedig ar bum egwyddor:

- 'ystyried y newidiadau yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014;
- gosod pobl ynghanol eu gofal a'u cymorth;
- datblygu dull Cymru cydlynol a chyson o fynd ati;
- mynd i'r afael â methiant darparwr;
- ymateb yn gyflym ac effeithiol i fodelau newydd o wasanaeth ac i unrhyw bryder am ansawdd y gofal a'r cymorth'[29].

– Ail-luniwyd **Cronfa Gofal Integredig, Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy, Grantiau'r Trydydd Sector (Adran 64 cyllido grantiau gynt) a'r Gronfa Trawsnewid** i gynorthwyo i gyflenwi polisi. Nod y Gronfa Gofal Integredig[30] ydy gyrru a galluogi gwasanaethau cymdeithasol, sector iechyd, tai, y trydydd sector a'r sector annibynnol i integreiddio a chydweithio'. Y bwriad ydy helpu byrddau partneriaethau rhanbarthol i ddatblygu a phrofi dulliau newydd o fynd ati a modelau cyflenwi gwasanaeth a fydd yn cynorthwyo egwyddorion sylfaenol integreiddio ac ataliad. (2018, tud.2). Diben Grant Trydydd Sector y Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy (Cyfnod 2) ydy cefnogi a chynorthwyo blaenoriaethau Gweinidogion Cymru o ran perthynas newydd a chydradd rhwng pobl ac ymarferwyr; ymyriad cynnar a thrawsnewid y modd y diwellir anghenion pobl am ofal a chymorth. Ceir tystiolaeth[31] bod y Gronfa Trawsnewid wedi cynorthwyo gofal a chymorth mewn sawl maes yn cynnwys gwella cydlyniad y gofal, datblygu modelau gofal newydd a helpu atal derbyniadau diangen i'r ysbyty ac oedi wrth ryddhau pobl o'r ysbyty.

---

[28] Deddf Rheoleiddio ac Arolwg Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016
[29] Trosolwg: Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016
[30] Y gronfa gofal integredig: canllawiau 2019
[31] *Review of ICF: Projects and Initiatives which Demonstrate Good Practice*, Llywodraeth Cymru 2017

- Mae **Deddf Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015** [32] Diben y darn hwn o ddeddfwriaeth ydy gwella'r canlynol:

    - 'trefniadau ar gyfer atal trais ar sail rhyw, cam-drin domestig a thrais rhywiol;
    - Trefniadau i ddiogelu ac amddiffyn dioddefwyr trais ar sail rhyw, cam-drin domestig a thrais rhywiol; ac hefyd
    - Cymorth i bobl sydd wedi'u heffeithio gan drais ar sail rhyw, cam-drin domestig a thrais rhywiol'. (Adran 1)

- **Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 2015**

  Mae'r Ddeddf hon yn darparu ar gyfer cyfuno 2 neu fwy o brif feysydd sydd eisoes yn bodoli yn un maes sengl newydd, gyda phrif awdurdod lleol newydd ac mae'n diwygio cyfraith llywodraeth leol o ran adolygu cyflogau a etholiadau (Adran 1, Deddf Llywodraeth Leol (Cymru), 2015).


Mae'r polisi cyhoeddus hwn yn cyfrannu at lunio'r amgylchedd a'r rhagamodau y mae'r rhai hynny sy'n gyfrifol am weithredu'r Ddeddf yn gweithio tu mewn iddyn nhw. Mae ystyried saernïaeth y polisi cyhoeddus hwn yn bwysig wrth werthuso pa newidiadau y gellir eu priodoli i weithrediad *Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014*.

## 3. Disgrifiad o'r Fframwaith ar gyfer Newid

### Nodiadau Esboniadol

Mae Fframwaith ar gyfer Newid yn disgrifio'r modd y mae'r dyletswyddau, yr egwyddorion a'r delfrydau, y mecanweithiau a'r arferion a nodir yn y Ddeddf yn ganllawiau ar gyfer canlyniadau, yn enwedig cyflawni llesiant pobl yng Nghymru a chynaliadwyedd gwasanaethau. Dangosir hyn yn Ffigwr 1. Yn dilyn, ceir esboniad o bob un o gydrannau'r Fframwaith ar gyfer Newid. Mae'n disgrifio'r Ddeddf yn ei chyfanrwydd gan ystyried pob cydran. Yn unol â dull P-FE, dydy'r Fframwaith ar gyfer Newid ddim yn disgrifio cysylltiadau achosol; ond yn hytrach dealltwriaeth o'r berthynas rhwng egwyddorion a gofynion y Ddeddf, ei gweithrediad a'i heffaith a bydd y canlyniadau yn dod i'r amlwg yn ystod yr astudiaeth werthuso.

[32] Deddf Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015




**Ffigwr 1: Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 Fframwaith ar gyfer Newid**

## Canllawiau cyfeirio

Mae'r Ddeddf yn cynnig canllawiau a chyfarwyddyd ar y modd y dylai gwasanaethau cymdeithasol gael eu cyflenwi yng Nghymru. Mae'r ddeddfwriaeth yn:

> Ddeddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru i ddiwygio cyfraith gwasanaethau cymdeithasol; i geisio gwella canlyniadau llesiant pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt ac i ofalwyr y mae angen cymorth arnynt; gwneud darpariaeth ynglŷn â chydweithredu a phartneriaeth gan awdurdodau cyhoeddus er mwyn ceisio gwella llesiant pobl; gwneud darpariaeth ynglŷn â chwynion am ofal cymdeithasol a gofal lliniarol; ac at ddibenion cysylltiedig. (*Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)* 2014, tud.1)

Yn y Ddeddf ceir dyletswyddau, swyddogaethau, prosesau a grymoedd gwasanaethau cymdeithasol penodol. Mae'r rhain yn hyrwyddo integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol, yn annog pobl i fod yn annibynnol, i gael llais a rheolaeth cryfach dros eu bywydau eu hun, yn rhoi mwy o ryddid i bobl benderfynu pa gymorth sydd ei angen arnyn nhw, yn hyrwyddo ataliad, gwasanaethau'r trydydd sector a gwasanaethau dan arweiniad defnyddwyr ac yn hybu gwasanaethau cyson uchel eu hansawdd ar draws y wlad; a darparu ar gyfer amddiffyn plant a phobl ifanc a'u gofal a'u cymorth. Mae'r amcanion hyn yn sail i'r newidiadau sydd eu hangen i gyflenwi gwasanaethau priodol ac amserol yng Nghymru.

Dyletswydd trosfwaol ydy rhoi ystyriaeth Egwyddorion a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig Rhyngwladol (Y Ddeddf 2014, adran 7, tud 8). Mae'r Ddeddf hefyd yn gwneud y dull ataliol o fynd ati yn ddeddf, ac un lle mae pobl yn bartneriaid cydradd wrth lunio a chyflenwi'r gofal a'r cymorth sydd eu hangen arnyn nhw (cyd-gynhyrchu). Mynegir yr angen am y gwelliant hwn fel yr angen i 'drawsnewid'. Mae'r Ddeddf[33] yn gosod allan weledigaeth i sicrhau newid trawsffurfiol mewn polisi cyhoeddus ac mewn gwasanaethau cymdeithasol, rheoliadau a threfniadau cyflenwi ar draws Cymru

Bydd y newidiadau arfaethedig yn:

- lleihau cymhlethdod deddfwriaeth perthnasol;
- blaenoriaethu gwasanaethau integredig o ansawdd sy'n gwella canlyniadau llesiant ar gyfer pobl sydd angen gofal a cymorth a gofalwyr sydd angen cymorth;
- atgyfnerthu dull o fynd ati sy'n seiliedig ar hawliau;
- ymestyn hawliau gofalwyr;
- sicrhau trefniadau diogelu effeithiol;
- a symud rhwystrau y mae pobl ifanc yn eu hwynebu wrth bontio i fynd yn oedolion;
- ac hefyd, symud ffocws y gweithle ac yn wir pob ymarferydd a gweithiwr proffesiynol ym maes gofal cymdeithasol o ddull o fynd ati yn seiliedig ar dasg i ffocysu ar ganlyniadau llesiant ar gyfer pobl.

[33] Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Mae ffocws y Ddeddf ar y parthau canlynol:

**1. Unigolion** – boed y rhain yn bobl sy’n derbyn cymorth a/neu ofal ai peidio;

**2. Teulu a Gofalwyr** – y bobl hynny sy’n darparu cymorth di-dâl ar gyfer pobl gydag anghenion;

**3. Cymunedau** – cymunedau lleol a ffurfiau eraill o gysylltiadau cymdeithasol;

**4. Gweithwyr** – boed y rhain yn weithwyr gofal ‘rheng flaen’ sy’n cael eu talu, gweithwyr y gwasanaethau cymdeithasol a’r trydydd sector sy’n cael eu talu, rheolwyr timau neu’r rhai hynny sy’n rheolwyr gofal yn trefnu cymorth a gofal ar gyfer eraill;

**5. Sefydliadau** – boed y rhain yn arweinwyr strategol cyrff y sector cyhoeddus megis awdurdodau lleol a byrddau iechyd (yn cynnwys swyddogion cyllid), neu’n arweinwyr o sefydliadau rhanddeiliaid allweddol.

Gellir olrhain y **Tybiaethau** am y cysylltiadau rhwng cyfeiriadau’r polisi a’r amcanion a grybwyllwyd eisoes i’r Papur Gwyn *Gwasanaethau Cymdeithasol – Fframwaith ar gyfer Gweithredu* (2011),[34] a seiliwyd ar Gomisiwn Annibynnol ar Wasanaethau Cymdeithasol (2010)[35] sydd ynddo’i hun yn cadarnhau’r weledigaeth a geir yn *Bywydau Bodlon, Cymunedau Cefnogol* (2007).[36] Gellir gweld pwysigrwydd ymgorffori a deddfu ar gyfer dull cydweithredol o fynd ati nid yn unig yn y papurau perthnasol ond yn y modd cafodd arweinyddiaeth cydweithredol ei arddangos yng nghynllun a chefnogaeth Fforwm Partneriaeth Gwasanaethau Cenedlaethol a’r Grŵp Arweinyddiaeth Strategol a dau iteriad Panel Dinasyddion Gwasanaethau Cymdeithasol Cenedlaethol, a gymerodd ran arweiniol wrth gyflwyno cysyniad o gyd-gynhyrchu’r modd y datblygwyd y Ddeddf. Casglodd y Comisiwn wybodaeth ar faterion gwasanaethau cymdeithasol a llesiant yng Nghymru a chynorthwyodd i nodi’r ffactorau allweddol a fyddai angen i fod yn sail i newid. Sail i’r dogfennau allweddol hyn oedd trafodaethau a thystiolaeth ymchwil. Er enghraifft, mae’r Comisiwn Annibynnol yn datgan eu bod wedi ymgynghori gyda ‘thros 150 o bobl a sefydliadau ac ystyried dros 100 o ddarnau o dystiolaeth ysgrifenedig’ (2011, tud. 5). Isod ceir rhai o’r tybiaethau yn *Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy – Fframwaith ar gyfer Gweithredu* (2011).

---

[34] Gwasanaethau cymdeithasol cynaliadwy i Gymru: fframwaith gweithredu


[35] *From vision to action. The report of the Independent Commission on Social Services in Wales* (2010)

[36] *Fulfilled Lives, Supportive Communities: A Strategy for Social Services in Wales over the next decade* (2007)

## *Tybiaethau Sylfaenol*

***Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy – Fframwaith ar gyfer Gweithredu* (2011)**

- Mae gwasanaethau cymdeithasol yn bwysig i bobl ledled Cymru sy'n darparu sail i adeiladu arno;
- Mae angen newid fel bod gwasanaethau cymdeithasol yn gallu ymateb yn well i amgylchiadau cymdeithasol a theuluol cyfnewidiol ac anghenion gofal, darpar anghenion, disgwyliadau a galwadau cyfnewidiol;
- Mae sefyllfa ariannol gyfyng yn golygu dewisiadau, 'i gontractio gwasanaethau neu i ail-feddwl am y dulliau y gellir eu cyflenwi';
- Mae gan lywodraethau ddyletswydd i gwrdd â gofynion hawliau dynol rhyngwladol a chreu amgylcheddau sy'n help i wireddu'r hawliau;
- Gall Deddf syml gyda dyletswyddau a rheoliadau mewn un lle ganiatáu ymatebion hyblyg ym maes gofal cymdeithasol;
- Mae angen i lywodraethau gwrdd â disgwyliadau'r cyhoedd i barchu 'urddas, barn, dymuniadau a theimladau'r unigolyn';
- Ei bod yn well i 'atal problemau cyn iddyn nhw ddechrau' a gall dull ataliol o fynd ati gynorthwyo'r defnydd o adnoddau cyfyngedig;
- Hyrwyddo magu plant yn eu teuluoedd, pan fydd hyn yn gyson â hyrwyddo llesiant y plentyn;
- Gwerth hybu annibyniaeth lle bo'n bosibl a chynorthwyo teuluoedd a chymunedau gan ddefnyddio'u cryfderau;
- Gall datblygu cymuned a menter gymdeithasol gan grwpiau cymunedol a'r trydydd sector gynorthwyo ataliad a llesiant sector;
- Mae'n angenrheidiol i atgyfnerthu a gwerthfawrogi gweithlu'r gwasanaethau cymdeithasol er mwyn sicrhau newid ym maes gofal a chymorth;
- Bydd cydweithredu a phartneriaeth yn cynorthwyo i leihau aneffeithlonrwydd a dyblygu ac ataliad ac ymyriad cynnar. Mae hyn yn cynnwys cysylltiadau gyda'r sector preifat ac annibynnol a iechyd;
- Bydd newid yn y boblogaeth, yn cynnwys y grŵp mwy o bobl dros 65 oed yn gweld y bydd angen gwahanol fath o ofal a chymorth yn y dyfodol ac angen cymorth ar gyfer gofalwyr.




Ffynonellau: Papur Gwyn y Llywodraeth, Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu (2011); Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

**Ffigwr 2: Canllawiau Cyfeirio**

## Egwyddorion

Mae pum egwyddor yn rhedeg drwy’r Ddeddf a’r Codau Ymarfer cysylltiol: ataliad, llesiant. llais a rheolaeth, cyd-gynhyrchu a gwaith aml-asiantaethol. Mae Rhan 2, Adran 7 o'r Ddeddf yn gosod allan dyletswyddau trosfwaol o ran rhai ‘sylw dyladwy’ i Egwyddorion a Chytundeb y Cenhedloedd Unedig. Sef Egwyddorion Y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Hawliau’r Plentyn.




**Ffigwr 3: Egwyddorion y Ddeddf**

## Prosesau ymyriad

Mae'r Ddeddf yn cynnwys 11 rhan a phob rhan yn nodi dyletswyddau darparwyr arbennig ac amlinellu gofynion a phrosesau. Ochr yn ochr â'r Ddeddf, ceir strwythurau, prosesau a Chodau Ymarfer – yn cynnwys y rhai hynny sy'n sefydlu cylch gorchwyl a chanllawiau ar gyfer trefniadau partneriaeth ranbarthol, cynlluniau gofal a gyd-gynhyrchwyd a thrafod 'yr hyn sy'n bwysig' ymhlith eraill.  Rhestrir y Codau Ymarfer a sefydlwyd o dan Adran 145 isod:[37]

- Rhan 2 Cod Ymarfer (Swyddogaethau Cyffredinol)
- Rhan 3 Cod Ymarfer (Asesu Anghenion Unigolion )
- Rhan 4 Cod Ymarfer (Diwallu Anghenion)
- Rhan 4 a 5 Cod Ymarfer (Codi Ffioedd ac Asesiadau Ariannol)
- Rhan 6 Cod Ymarfer (Plant sy'n Derbyn Gofal a Phlant sy'n cael eu Lletya)
- Rhan 8 Cod Ymarfer ar Rôl Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol (Swyddogaethau Gwasanaethau Cymdeithasol)
- Rhan 10 Cod Ymarfer (Eiriolaeth)
- Rhan 11 Cod Ymarfer (Amrywiol a Chyffredinol)
- Cod Ymarfer ar ymarfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol o ran gorchmynion gwarcheidwaeth arbennig
- Cod Ymarfer ar Fesur Perfformiad Gwasanaethau Cymdeithasol.

Gellir cyhoeddi datganiadau polisi o dan adran 147 (1) o'r Ddeddf.

[37] Datganiad Ysgrifenedig - Deddf Gwasanaethau a Llesiant (Cymru) 2014: Cyhoeddi codau ymarfer o dan y Ddeddf

### *Mewnbynnau'r ymyriad*

Yn y Fframwaith ar gyfer Newid hwn mae mewnbynnau yn disgrifio'r hyn sydd ei angen i gynorthwyo i weithredu gwahanol gydrannau o'r Ddeddf. Maen nhw'n cynnwys trefniadau sefydliadol, strwythurau i alluogi cydweithio a gweithio'n aml-asiantaethol a chynllunio, trefniadau'r gweithlu, prosesau cynllunio, materion ariannol ac ail-gyfeirio ymarfer a hinsawdd sefydliadau. Ceir enghreifftiau isod.

| Mewnbynnau |
|---|
| Gweithlu o ansawdd ac ar gael yn meddu ar sgiliau a gwybodaeth o ddyletswyddau a gofynion y Ddeddf |
| Sefydlu gwell gofal cymdeithasol a threfniadau atebolrwydd |
| Fframweithiau canlyniadau cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol |
| Sefydlu Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol |
| Sefydlu fframwaith o un set o drefniadau ar gyfer asesiad ariannol a chodi ffioedd ar gyfer gofal preswyl a di-breswyl |
| Proses newydd ar gyfer asesu gofal a chymorth cymesur sy'n ffocysu ar yr unigolyn a'i g/chanlyniadau llesiant |
| Newid yn yr hinsawdd er mwyn galluogi gofalwyr gael hawl cyfartal i asesiad ar gyfer cymorth i'r rhai y maen nhw'n gofalu amdanyn nhw. |
| Grymoedd diogelu cryfach |
| Newid gogwydd sefydliadau at ddulliau ataliol ac ymyriad cynnar o fynd ati i ddiwallu anghenion gofal a chymorth |
| Arferion cyfnewidiol comisiynwyr ac ymarferwyr |
| Awdurdodau lleol a byrddau lleol yn dod at ei gilydd i gyd-asesu a datblygu cynlluniau i ddiwallu anghenion lleol |
| Sefydlu Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol |
| Sefydlu Fforymau Gwerth Cymdeithasol Rhanbarthol |
| Mewnbynnau perthnasol i sefydlu gwasanaeth eirioli i sicrhau bod gwybodaeth a chyngor am gymorth a help i ddod o hyd i hyn yn cael eu darparu. |

### *Gweithgareddau ymyriad*

Ymhlith y gweithgareddau a restrir mae'r dyletswyddau, prosesau a strategaethau sy'n ofynnol o dan y Ddeddf. Oherwydd lefel y manylion yn y Ddeddf, ceir isod y prif ddyletswyddau, prosesau a strategaethau sy'n gwneud y Ddeddf yn ymyriad nodedig. Mae'r Codau Ymarfer yn rhoi manylion am y gweithgareddau hyn.

| Gweithgareddau |
|---|
| Rhaid i Awdurdodau Lleol ddarparu gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth hygyrch perthnasol i ofal a chymorth. Cyhoeddi gweithrediad y system hon yn yr ALl. (Y Ddeddf Rhan 2) |
| Dyletswydd ar yr ALl i asesu anghenion oedolyn sydd angen gofal a chymorth a diwallu anghenion asesedig (yn amodol ar gwrdd ag amodau). Bydd ffocws yr asesiad ar ganlyniadau ac yn cynnwys yr oedolyn 'lle bo'n ddichonadwy, unrhyw ofalwr sydd gan yr oedolyn'. Asesiadau i ystyried 'gofal a chymorth', 'gwasanaethau ataliol' a 'gwybodaeth, cyngor a chymorth'. (Y Ddeddf Rhan 3; Y Ddeddf Rhan 4) |
| Dyletswydd i asesu anghenion plentyn am ofal a chymorth ('yn ogystal â, neu yn lle'r gofal a chymorth a ddarperir gan deulu'r plentyn' a diwallu anghenion (yn amodol ar gwrdd ag amodau). Mae ffocws yr asesiad ar ganlyniadau gan ddefnyddio proses a nodir yn Adran 21. Asesiadau i ystyried 'gofal a chymorth' 'gwasanaethau ataliol' a 'gwybodaeth, cyngor a chymorth'. (Y Ddeddf Rhan 3; Rhan 4) |
| Dyletswydd i asesu anghenion gofalwr am gymorth a diwallu anghenion asesedig (yn amodol ar gwrdd ag amodau) (Y Ddeddf Rhan 3; Rhan 4) |
| Gweithredu'r broses asesu cymesur sy'n ffocysu ar ganlyniadau llesiant personol ac unigol (Y Ddeddf Rhan 3) |
| Taliadau uniongyrchol (Y Ddeddf Act Rhan 4) |
| Cynlluniau gofal a chymorth a chynlluniau cymorth ar gyfer gofalwyr (Y Ddeddf Rhan 4) |
| AauLl i gyflawni dyletswyddau o ran plant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n cael eu lletya (Y Ddeddf Rhan 6) |
| Rhaid i AauLl, ac unrhyw bartner perthnasol arall ddiogelu ac amddiffyn pobl a gofalwyr yn briodol rhag cael eu cam-drin a'u hesgeuluso (Y Ddeddf Rhan 7). Mae'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol wedi nodi dyletswyddau yn Adran 132. |
| Partneriaethau rhanbarthol rhwng awdurdodau lleol a byrddau iechyd i asesu anghenion gofal a chymorth a datblygu cynlluniau gwasanaeth i ddiwallu'r anghenion hyn (ac anghenion cymorth gofalwr) sef anghenion y boblogaeth yn eu hardal (Y Ddeddf Rhan 9) |
| Rhaid i AauLl drefnu ar gyfer cydweithredu a phartneriaethau (Y Ddeddf Rhan 9) |
| Darparu ar gyfer integreiddio gofal a chymorth gyda gwasanaethau iechyd (Y Ddeddf Rhan 9) |
| Cwynion, cynrychiolaeth a gwasanaeth eirioli (Y Ddeddf Rhan 10) |
| Byrddau iechyd lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG yn rhoi '...gwybodaeth am y gofal a'r chymorth y maen nhw'n ei ddarparu yn eu hardal' i awdurdodau lleol (Y Ddeddf Rhan 2) |
| AauLl yn hybu ataliad ac ymyriad cynnar. Cymorth i ddatblygu mentrau cymdeithasol, cydweithredol sy'n cynnwys pobl sydd angen gofal a chymorth a gwasanaethau dan arweiniad gofalwyr a defnyddwyr (Y Ddeddf Rhan 2) |
| Hyrwyddo sefydliadau'r trydydd sector ym 'maes gofal a chymorth a gwasanaethau ataliol' (Y Ddeddf Rhan 2) |
| Cofrestrau o bobl â nam ar eu olwg, nam ar eu clyw a phobl anabl arall (Y Ddeddf Rhan 2) |
| Ymchwil gofal cymdeithasol (Y Ddeddf Rhan 11) |


### *Allbynnau’r ymyriad*

Yn y Fframwaith rhestrir rhai o’r cynhyrchion uniongyrchol neu’r hyn a ddarperir wrth weithredu’r Ddeddf.


| **Allbynnau** |
| --- |
| Cyflenwi gwasanaeth sy’n ffocysu ar ganlyniadau |
| Cynlluniau gofal a chymorth a chynlluniau cymorth |
| Gwasanaethau integredig o gwmpas yr unigolyn sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth |
| Dulliau cryfach o fynd ati yn seiliedig ar hawliau dynol ym maes gwasanaethau cymdeithasol |
| Gweithlu yn gweithredu gyda ffocws ar ganlyniadau gwelliant ar gyfer pobl |
| Cyfathrebu cyhoeddus am natur gwasanaethau gwybodaeth, cyngor a chymorth dwyieithog perthnasol i ofal a chymorth |
| Pwynt sengl mynediad i wasanaeth |
| Byrddau Diogelu Rhanbarthol Gweithredol |
| Mwy o ffocws ar annibyniaeth pobl ac i sicrhau bod gan bobl mwy o reolaeth ar yr hyn sy’n bwysig iddyn nhw |
| Ataliad a strategaethau ymyriad cynnar sy’n seiliedig ar anghenion unigolyn asesedig, gofalwr asesedig ac anghenion cymunedau lleol, ac sydd ar gael ac yn hygyrch |
| Fforymau Gwerth Cymdeithasol Rhanbarthol Gweithredol |
| Awdurdod Lleol a Bwrdd Iechyd Lleol yn cyd-cyhoeddi asesiad o anghenion y boblogaeth a chynllun strategaeth i ddarparu ystod a lefel y gwasanaethau a nodir |
| Gostyngiad mewn cyfarwyddyd, rheoliad ac arolwg |
| Datganiad Llesiant gan Weinidogion Cymru o fewn 3 blynedd i ddeddfu’r ddeddfwriaeth |

## Canlyniadau

Disgrifir dwy lefel o ganlyniadau: y newidiadau byrdymor a thymor canolig a'r newidiadau hirdymor a fwriedir oherwydd gweithrediad y Ddeddf.




**Ffigwr 4: Canlyniadau: Byr dymor a thymor Canolig**




**Ffigwr 5: Canlyniadau: Hirdymor**

# 4. Casgliad

Fel y nodwyd uchod, mae'r Ddeddf yn sylweddol wahanol i bolisi cyhoeddus blaenorol ac yn gosod allan ac yn gofyn am newid mawr mewn gofal cymdeithasol a gwasanaethau cymdeithasol ac yn y cysylltiadau rhwng y gwasanaethau cymdeithasol a phobl Cymru, cymunedau a sectorau tu allan i lywodraeth. Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r Fframwaith ar gyfer Newid a ddefnyddir fel canllaw werthuso gweithrediad *Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.* Seilir datblygiad y Fframwaith ar gyfer Newid ar adolygiad o'r Ddeddf a dogfennau allweddol blaenorol. Mae'n cynnig darlun cyffredinol i ni o dybiaethau sylfaenol allweddol y Ddeddf; canllawiau cyfeirio allweddol ac egwyddorion, newidiadau cyfundrefnol, diwylliannol a newidiadau wrth gyflenwi gwasanaeth sydd eu hangen; y trefniadau cyfundrefnol sydd wedi'u sefydlu i gyflenwi a gofynion eraill y Ddeddf; gweithgareddau a rolau allweddol gwahanol sectorau a'r canlyniadau byrdymor, tymor canolig a'r hirdymor a ragwelir.

Mae'r Fframwaith ar gyfer Newid yn disgrifio'r mewnbynnau, gweithgareddau ac allbynnau lefel uwch. Mae'r dull hwn o fynd ati yn gyson â'r defnydd o Werthuso sy'n Canolbwyntio ar Egwyddorion (P-FE) wrth werthuso ymyriadau. Mae Patton yn diffinio P-FE fel un sy'n gwerthuso 'sut mae egwyddorion yn llywio datblygiadau arloesol mewn sefyllfa ddeinamig gymhleth[38]'. Yn olaf, bydd y Fframwaith ar gyfer Newid yn cyfrannu at gynllunio a chyflenwi'r gwerthusiad a bydd yn cael ei ddiweddaru trwy gydol y broses a'r dadansoddiad o ganfyddiadau'r gwerthusiad.

[38] Patton, M. (2018) *Principles-Focused Evaluation*. The Guilford Press, London/Llundain.